EISTEDDFOD GADEIRIOL MAENCLOCHOG

1/5/2023

LLENYDDIAETH

37.	Cystadleuaeth y Gadair. Cerdd gaeth neu rydd (neu ddilyniant o gerddi) heb fod dros 100 llinell ar **un** o'r testunau canlynol: (1) Gaeaf; (2) Yfory; (3) Un wennol ni wna wanwyn.	Cadair fechan a £50 (Rhoddir y gadair er cof am Elwyn a Maud Morris)		
38.	Erthygl ar gyfer papur bro unrhyw ardal yng Nghymru.	Tlws Coffa E Llwyd Williams		
39.	Tlws y Llenor Ifanc (oed ysgol uwchradd). Darn o lenyddiaeth mewn unrhyw gyfrwng addas i`w gynnwys mewn ffolio ysgol. **(Gweler amod 9)**	Tlws a thocyn llyfr £25		
40.	Emyn ar gyfer oedfa uno enwadau.	Tlws		
41.	Erthygl ar un o bynciau llosg y dydd addas i'w chynnwys yn *Clebran*	Tocyn llyfr £25. Rhoddedig gan *Clebran* Papur Bro`r Preseli.		
42.	Telyneg neu soned: (1) Y Weirglodd; (2) Cwmwl.	£15	£10	-
43.	Englyn ar **un** o'r testunau canlynol: (1) Morthwyl; (2) Joe Allen.	£15	£10	-
44.	Pennill beddargraff ar unrhyw fesur i dri o'r canlynol: (1) Bwtsiwr; (2) Prif Weinidog; (3) Meddwyn; (4) Seleb; (5) Hwrdd; (6)Athrawes.	£15	£10	-
45.	Limrig yn dechrau â'r llinell: *Rhyw foi o ardal Casmael*	£10	£5	-
46.	Dysgwyr (oedolion) sydd heb fod yn dysgu Cymraeg am fwy na dwy flynedd. Ysgrifennu hyd at 150 o eiriau ar **un** o'r testunau canlynol: (1) Disgrifiwch eich diddordeb/au (2) Sgwrs rhwng dau ffrind *Dim mwy na 2 gynnig*	Tocyn llyfr £15	Tocyn llyfr £10	
47.	Dysgwyr (oedolion) sydd wedi bod yn dysgu Cymraeg am dros dwy flynedd. Ysgrifennu hyd at 250 o eiriau ar **un** o'r testunau canlynol: (1) Mynegi barn am rywbeth (2) Disgrifiwch y pethau gorau am fyw yn eich ardal chi. *Dim mwy na 2 gynnig*	Tocyn llyfr £15	Tocyn llyfr £10	

Noddwyd cystadlaethau 46 & 47 gan Wasanaeth Cymraeg i Oedolion Sir Benfro

AMODAU

1. Bydd barn y pwyllgor yn derfynol a bydd gan y beirniaid hawl i atal neu rannu gwobrau.
2. Ni chaniateir cystadlu ond yn y Gymraeg.
3. Y cyfansoddiadau i fod yn waith gwreiddiol yr ymgeiswyr a heb eu cyhoeddi.
4. Y cyfansoddiadau i fod mewn copi caled i'r ysgrifenyddes Llên Catrin Williams, Dan-yr-Eglwys, Llangolman, Clunderwen, SA66 7XN erbyn 31 Mawrth 2023. Rhodder ffugenw yn unig wrth y gwaith, gan amgáu enw, cyfeiriad llawn a rhif ffôn mewn amlen dan sêl.

Amodau llawn i'w gweld ar raglen yr eisteddfod, ar www.steddfota.cymru